

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymunedol Tal-y-Bont

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Tal-y-Bont yn gymuned ofalgar, hapus a theuluol. Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu naws gynhwysol a chyfeillgar ble mae disgyblion yn ymddwyn yn barchus ac yn gwrtais. Mae'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a digidol yn dda. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon effeithiol ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol ac mae eu gwaith yn cael ei arddangos a'i ddathlu'n ddeniadol o gwmpas yr ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm sy'n cynnig ystod o brofiadau pwrpasol i ddisgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Mae llais y disgybl yn rhan bwysig o'r broses ar gyfer cynllunio gweithgareddau, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymroi'n frwdfrydig i'w dysgu. Mae awyrgylch gadarnhaol yn y dosbarthiadau ac maent yn gymunedau dysgu gweithgar. At ei gilydd, mae athrawon yn defnyddio ystod addas o dechnegau addysgu effeithiol. Er hyn, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i gyflwyno eu gwaith yn anghyson.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac angerddol a chaiff ei gynorthwyo'n dda gan y pennaeth cynorthwyol. Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol i gynllunio ar gyfer gwelliannau yn drylwyr, gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso cadarn. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac yn adnabod yr ysgol yn dda o ran ei chryfderau a'r meysydd i'w datblygu.

# Argymhellion

**A1** **Sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm**

**A2** **Ymestyn cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud penderfyniadau am sut i gyflwyno eu gwaith yn gynyddol annibynnol**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymunedol Tal-y-Bont |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 80 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 68 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 7.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 22.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 42.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1 |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 20/04/2001 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/06/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.